Seindorf Beaumaris Band



## Gair gan ein Cadeirydd

Gobeithio fod pawb wedi cael cyfle i weld perfformiad arbennig y band yn rhaglen Band Cymru S4C. Os fethoch chi'r rhaglen, gallwch ei gweld drwy wasanaeth gwylio eto S4C. 'Falle na wnaethon ni ennill, ond roedd ein perfformiad wedi cyfareddu! Nid mod i'n un-ochrog!! (www.s4c.cymru/en/music/band-cymru)

Dwi'n edrych mlaen at weld cynifer ohonoch ag sy'n bosib yn y Cyngerdd Haf.

Rydan ni'n sôn yn aml am y Clwb 100 yn ein cyngherddau. Mae'r ymgyrch yma'n codi arian ers blynyddoedd lawer ac rydan ni i gyd yn hynod ddiolchgar i Bob Young am ei waith diflino yn gweinyddu'r Clwb.

Ers ei sefydlu, mae'r Band wedi elwa o £34,000 – incwm cyson, dibynadwy am gost o £1 yr wythnos i danysgrifwyr ac mae gan rai cyfeillion ddau danysgrifiad! Mae 50% o bob taliad yn cael ei ddychwelyd fel arian gwobrau. Felly os hoffech chi ddangos eich cefnogaeth i'r band, mewn modd syml iawn, ymunwch ac efallai byddwch yn lwcus!

Mae gwaith gwych y band yn parhau ac rydan ni'n diolch i bawb sy'n gweithio mor galed - ein harweinwyr, tiwtoriaid, gweithwyr yn y cefndir a phawb sy'n rhoi yn hael o'u hamser a'u hegni.

Diolch i'n holl gerddorion ac rydan ni'n dymuno'n dda i'n pobol ifainc sy'n sefyll arholiadau ar yr adeg yma o'r flwyddyn.

Os hoffech chi ymuno â'r Clwb100 Club mae croeso ichi ffonio Bob Young ar 01248 810057.

Diolch eto am eich cefnogaeth

Dr Patsy Thomas

**Cyngerdd Haf Seindorf Beaumaris 2016**

**Nos Sadwrn 9fed Gorffennaf 2016**
**7.30pm**

**Tocynnau ar werth o Ganolfan Hamdden Beaumaris.**

**Archebwch drwy ffonio 01248 811200**



Rydan ni hefyd yn falch o adrodd am lwyddiant y **Band Canolradd** ym Mhencampwriaeth Bandiau Ieuenctid Prydain ym Manceinion ddechrau'r flwyddyn.

Daeth y Band yn ail eleni – cryn gamp ar ôl cipio'r wobr gyntaf y llynedd. Llongyfarchiadau mawr i Bethan Evans, eu harweinydd, a'r criw ifanc sy'n gweithio mor galed mewn ymarferion.

**Gallwch glywed rhai o uchafbwyntiau rhaglenni'r ddau fand llwyddiannus yn y cyngerdd haf – a phrofi'r wefr drostoch eich hunain!**

....

**Ein Dechreuwyr.** Rhaid cofio bob amser lle mae gwraidd yr holl lwyddiant. Bydd y 45 o offerynwyr **Band y Dechreuwyr** yn agor ein cyngerdd haf , dan arweiniad gofalus Fred Evans. Yn amrywio o blant pedair i 11 oed, mi fyddan nhw'n chwarae caneuon poblogaidd y mae'n nhw'n eu mwynhau ac sy'n bleser pur i'r gynulleidfa bob amser!

## Croesawu'r Eisteddfod Genedlaethol i Fôn

Ymunodd ein Band â Band Porthaethwy ddydd Sadwrn 25ain Mehefin ar gyfer seremoni arbennig yng Nghaergybi i groesawu yr Eisteddfod Genedlaethol i Ynys Môn yn Awst 2017.

Bydd honno'n flwyddyn brysur a chyffrous arall inni – ond mwy am hynny yn y rhifynnau nesaf!



Mae'r **'Bandroom'** yn adnodd hollbwysig i'r band – cartref y band sy'n fwrlwm o weithgaredd bob amser. Dyma lun o'n criw ifanc yn ymarfer dan arweiniad Gwyn.

....

**Sul y Maer** – Fe fyddwn ni, yn ôl ein harfer, yn cymryd rhan yn Sul y Maer ym Miwmaris, ddydd Sul 10 Gorffennaf.

**Gyfeillion – d'wedwch wrth eraill!**

Rydan ni bob amser yn awyddus i ddenu Cyfeillion newydd. Mae eich cyfraniad yn allweddol i lwyddiant ein cerddorion ifainc – yn help i brynu offerynnau, gwisgoedd, a phethau angenrheidiol eraill. **Mae nifer o'n Cyfeillion bellach yn derbyn y cylchlythyr yma drwy ebost, sy'n arbed costau i ni. Os hoffech ymuno â nhw, ebostiwch** friendsofbeaumarisband@gmail.com